

HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU NOTICE OF AMENDMENTS

Cyflwynwyd ar 15 Rhagfyr 2015
Tabled on 15 December 2015

Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) Public Health (Wales) Bill

Mae'r gwelliannau â * ar eu pwys yn rhai newydd neu'n rhai sydd wedi'u haddasu
Amendments marked * are new or have been altered

Kirsty Williams 108

Gyda chefnogaeth / Supported by: Darren Millar

Long title, page 1, line 6, after 'toilets;', insert 'about maximising the health of people in Wales, and health impact assessments;'.
Teitl hir, tudalen 1, llinell 6, ar ôl 'cyhoeddus;', mewnosoder 'ynghylch gwneud yn fawr o iechyd pobl yng Nghymru, ac asesiadau o'r effaith ar iechyd;'.
Adran 1, tudalen 2, ar ôl llinell 14, insert –

Kirsty Williams 109

Gyda chefnogaeth / Supported by: Darren Millar

Section 1, page 2, after line 14, insert –

'() Part [Part to be inserted by amendment 110] makes provision about maximising the health of people in Wales and carrying out health impact assessments.'

Adran 1, tudalen 2, ar ôl llinell 16, mewnosoder –

'() Mae Rhan [Y Rhan sy'n cael ei mewnosod gan welliant 110] yn gwneud darpariaeth ynghylch gwneud yn fawr o iechyd pobl yng Nghymru a chynnal asesiadau o'r effaith ar iechyd.'



Kirsty Williams

110

Gyda chefnogaeth / Supported by: Darren Millar

Page 54, after line 12, insert a new section –

'PART []

DUTY TO MAXIMISE HEALTH, AND HEALTH IMPACT ASSESSMENTS

[] Duty to maximise health

- (1) When exercising its functions in relation to policies and proposals specified in regulations made under subsection (2), a public body must have regard to the need to maximise the health of the people in Wales who the public body considers are likely to be affected by its exercise of those functions.
- (2) The Welsh Ministers must by regulations specify policies and proposals for the purposes of subsection (1).
- (3) The first regulations specifying such policies and proposals must be made within 12 months of the date of this Act receiving Royal Assent.
- (4) Before making regulations under this section, the Welsh Ministers must consult such persons as they think appropriate.’

Tudalen 54, ar ôl llinell 12, mewnosoder adran newydd –

'RHAN []

**DYLETSWYDD I WNEUD YN FAWR O IECHYD, AC ASESADAU O'R EFFAITH AR
IECHYD**

[] Dyletswydd i wneud yn fawr o iechyd

- (1) Wrth arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â pholisïau a chynigion a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan is-adran (2), rhaid i gorff cyhoeddus roi sylw i'r angen i wneud yn fawr o iechyd y bobl hynny yng Nghymru y mae arfer y swyddogaethau hynny, ym marn y corff cyhoeddus, yn debygol o effeithio arnynt.
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru drwy reoliadau bennu polisïau a chynigion at ddibenion is-adran (1).
- (3) Rhaid gwneud y rheoliadau cyntaf sy'n pennu polisïau a chynigion o'r fath o fewn 12 mis i'r dyddiad y caiff y Ddeddf hon Gydsyniad Brenhinol.
- (4) Cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cyfryw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy.’



Kirsty Williams

111

Gyda chefnogaeth / Supported by: Darren Millar

Page 54, after line 12, insert a new section –

[] Health impact assessments

- (1) A public body must make such arrangements as it considers appropriate for –
 - (a) assessing the exercise of its functions in relation to the specified policies and proposals on its ability to comply with the duty in section *[section to be inserted by amendment 110]*,
 - (b) assessing the impact of any –
 - (i) review of its exercise of functions in relation to the specified policies and proposals, and
 - (ii) revision that the public body proposes to make to the exercise of its functions in relation to the specified policies and proposals,on its ability to comply with that duty,
 - (c) monitoring the impact of the exercise of its functions in relation to the specified policies and proposals on its ability to comply with that duty, and
 - (d) publishing reports in respect of any assessment that –
 - (i) is referred to in paragraph (a) or (b), and
 - (ii) shows that the impact or likely impact (as the case may be) on the public body's ability to comply with that duty is substantial.
- (2) When considering what arrangements are appropriate under this section, public bodies must consult such persons as they consider appropriate.'

Tudalen 54, ar ôl llinell 12, mewnosoder adran newydd –

[] Asesiadau o'r effaith ar iechyd

- (1) Rhaid i gorff cyhoeddus wneud y trefniadau hynny sy'n briodol yn ei farn ef o ran –
 - (a) asesu'r modd yr arferir ei swyddogaethau mewn perthynas â'r polisiau a'r cynigion penodedig ar ei allu i gydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran *[yr adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 110]*,
 - (b) asesu effaith unrhyw –
 - (i) adolygiad o'r modd yr arferir ei swyddogaethau mewn perthynas â'r polisiau a'r cynigion penodedig, a
 - (ii) diwygiad y mae'r corff cyhoeddus yn bwriadu ei wneud i'r modd yr arferir ei swyddogaethau mewn perthynas â'r polisiau a'r cynigion penodedig,ar ei allu i gydymffurfio â'r ddyletswydd honno,
 - (c) monitro effaith arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â'r polisiau a'r cynigion penodedig ar ei allu i gydymffurfio â'r ddyletswydd honno, a
 - (d) cyhoeddi adroddiadau mewn cysylltiad ag unrhyw asesiad –



- (i) y cyfeirir ato ym mharagraff (a) neu (b), a
 - (ii) sy'n dangos bod yr effaith neu'r effaith bosibl (yn ôl y digwydd) ar allu'r corff cyhoeddus i gydymffurfio â'r ddyletswydd honno yn sylweddol.
- (2) Wrth ystyried pa drefniadau sy'n briodol o dan yr adran hon, rhaid i gyrrff cyhoeddus ymgynghori â'r cyfryw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy.'

Kirsty Williams

112

Gyda chefnogaeth / Supported by: Darren Millar

Page 54, after line 12, insert a new section –

'[] Health impact assessment: guidance

- (1) The Welsh Ministers must issue guidance (including guidance about co-operation) about –
 - (a) complying with the duty in section *[section to be inserted by amendment 110]*, and
 - (b) the arrangements required under section *[section to be inserted by amendment 111]*.
- (2) A public body must have regard to such guidance.'

Tudalen 54, ar ôl llinell 12, mewnosoder adran newydd –

'[] Asesiad o'r effaith ar iechyd: canllawiau

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau (gan gynnwys canllawiau am gydweithredu) ynghylch –
 - (a) cydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran *[yr adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 110]*, a
 - (b) y trefniadau sy'n ofynnol o dan adran *[yr adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 111]*.
- (2) Rhaid i gorff cyhoeddus roi sylw i ganllawiau o'r fath.'

Kirsty Williams

113

Gyda chefnogaeth / Supported by: Darren Millar

Page 54, after line 12, insert a new section –

'[] Meaning of public body

- (1) Each of the following is a "public body" for the purposes of this Part –
 - (a) the Welsh Ministers;
 - (b) a local authority;
 - (c) a Local Health Board;
 - (d) the following NHS Trusts –



- (i) Public Health Wales;
 - (ii) Velindre NHS Trust;
 - (iii) Welsh Ambulance Services NHS Trust.
- (2) The Welsh Ministers may by regulations amend subsection (1) by adding a person to the list.’.

Tudalen 54, ar ôl llinell 12, mewnosoder adran newydd –

[] Ystyr corff cyhoeddus

- (1) Mae pob un o’r canlynol yn “gorff cyhoeddus” at ddibenion y Rhan hon –
- (a) Gweinidogion Cymru;
 - (b) awdurdod lleol;
 - (c) Bwrdd Iechyd Lleol;
 - (d) Yr Ymddiriedolaethau GIG a ganlyn –
 - (i) Iechyd Cyhoeddus Cymru;
 - (ii) Ymddiriedolaeth GIG Felindre;
 - (iii) Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio is-adran (1) drwy ychwanegu person at y rhestr.’.

Kirsty Williams

114

Gyda chefnogaeth / Supported by: Darren Millar

Section 98, page 55, after line 27, insert –

- ‘() regulations made under section *[section to be inserted by amendment 110](2)* or *[section to be inserted by amendment 113](2)*’.

Adran 98, tudalen 55, ar ôl llinell 29, mewnosoder –

- ‘() rheoliadau a wneir o dan adran *[yr adran sy’n cael ei mewnosod gan welliant 110](2)* neu *[yr adran sy’n cael ei mewnosod gan welliant 113](2)*’.

